# *Cyfarfod Grŵp Llywio Partneriaeth Natur Leol Ceredigion*

Partneriaeth Natur Ceredigion
Ceredigion Nature Partnership

## *Cofnodion*

| | |
|---|---|
| ***Dyddiad:*** | 20/01/2026 |
| ***Lleoliad:*** | Ar-lein-Teams |

***Presennol***

| | | |
|---|---|---|
| Eryl Evans (Cadeirydd) | EE | Cynghorydd Sir, Llangybi, Cyngor Sir Ceredigion |
| Jake Rayson | JR | Cynorthwyydd Bioamrywiaeth, Partneriaeth Natur Ceredigion |
| Gillian Clark (Cofnodion) | GC | Cydlynydd, Partneriaeth Natur Ceredigion |
| Fiona Moran | FM | Cynorthwyydd Bioamrywiaeth, Partneriaeth Natur Ceredigion |
| Chris Harris | CH | Cynorthwyydd Bioamrywiaeth, Partneriaeth Natur Ceredigion |
| Sarah Smyth (cofnodion) | SS | Ecolegydd Uwch Dros Dro, Cyngor Sir Ceredigion County |
| Alison Heal | AH | Cyn Ecolegydd Uwch, Cyngor Sir Ceredigion |
| Alun Williams | AW | Cynghorydd Sir, Cyngor Sir Ceredigion |
| Jo Swannell | JS | Arlunydd Llawrydd yn gweithio ar brosiectau |
| Dafydd Lloyd | DL | Swyddog Cyswllt y Goedwig Genedlaethol, Canolbarth Cymru |
| Sean McHugh | SH | Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru |
| Carys May | CM | CGBGC |
| Paul Taylor | PT | Cofnodwr y Sir, Butterfly Conservation |
| Rebecca Wright | BW | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Rachel Auckland | RA | Cyn Gydlynydd LNP |
| Chris Worker | CW | Swyddog Bioamrywiaeth WG Wedi Ymddeol |
| Carol Feilding | CF | CNC - Arweinydd Tîm Amgylcheddol |

| | | |
|---|---|---|
| David Llewelyn | DLl | RSPB |
| Mel Walters | MW | Cydlynydd Gofalwyr a Datblygiad Cymunedol – Ymyrryd Cynnar, Cyngor Sir Ceredigion |

| 2 | **Cyflwyniadau gan y rhai oodd yn bresennol** |
|---|---|

| 3 | **Nodiadau am y cyfarfod diwethaf a materion yn codi** |
|---|---|
| 3.1 | Dim materion yn codi o'r cyfarfod blaenorol |

| 4 | **Ymddiheuriadau** |
|---|---|
| | Tri ym ymddiheuriad, Clare Hannigton, Tasha Riley, Tim Strang |

| 5 | **Diweddariad Cydlynwyr** |
|---|---|
| 5.1 | **GC**- Gadawodd Alison Heal ym mis Hydref fel Ecolegydd Uwch, ac yn drist iawn ymddeolodd Rachel Auckland fel Cydlynydd LNP. Gwelwn eisiau'r ddwy yn fawr iawn.<br>Roedd angen llenwi'r swydd Cydlynydd LNP er mwyn bodloni meini prawf yr arian grant. Cytunwyd i frysio i lenwi'r swydd drwy anfon allan fynegiant o ddiddordeb i'r tîm ecoleg ehangach. Cynhaliwyd cyfweliad ym mis Rhagfyr a phenodwyd Gill i'r swydd tan fis Mawrth 2027. Ar ôl cyfarfod gyda CGGC, mae cyfle i ariannu swyddog cefnogi gwasanaeth rhan-amser i helpu Gill. Mae trafodaeth am hyn yn parhau fel y ffordd ymlaen.<br>Hysbyswyd Gill fod CGGC wedi cymeradwyo'r cais LPfN ddydd Gwener 16 Ionawr. Rhoddwyd diwrnodau ychwanegol i Chris, Jake a Fiona o fewn yr ariannu i helpu gyda gwaith ychwanegol ac i helpu gyda swydd swyddog cymorth y gwasanaeth.<br>Mae'r NRAP yn symud ymlaen, a gall fod angen cymorth ychwanegol yn allanol gan ymgynghorydd i ddatrys y fformadu ar gyfer y penawdau a'r troednodiadau i sicrhau eu bod yn cyd-fynd yn Gymraeg ac yn Saesneg.<br>Cafodd LNP nifer o geisiadau am brosiectau o'r gronfa ariannu o 100k. Disgwylir i'r prosiectau i gyd fodloni'r holl feini prawf, ac ni ddisgwylir dim neu ychydig iawn o danwario.<br>Mae'r gwaith yn mynd ymlaen ar gyfer presgripsiynau i gefnogi iechyd a llesiant i wneud cysylltiad ystyrlon â natur.<br>Bydd prosiect LPfN 2025-2027 "Natur wrth ddrws pawb" yn para tan fis Mawrth 2027. Un o brif nodweddion y prosiect yw'r Tyrau Bywyd Gwyllt. Mae cynlluniau wedi eu prynu oddi wrth y Barn Owl Trust ar gyfer y tyrau. Maent yn cynnal nifer o rywogaethau gan gynnwys yr ystlum pedol mawr, adar y to ac ati. Mae'n hawdd addasu'r dyluniad i gynnwys nodweddion penodol fel blychau i'r wennol ddu. Bydd y cynnig yn cynnwys gwelyau peillwyr wedi eu plannu gerllaw, a llyn o bosibl os bydd tir ar gael. Mae tŵr yn costio o tua £33k a gall fod yn llai o ddefnyddio defnyddiau wedi eu hailgylchu.<br>Mae'r prosiect LPfN hefyd yn cynnwys tyrau i'r wennol ddu. |

| | |
|---|---|
| | Prosiect LPfN llynnoedd trefol. Bydd Gill yn cwrdd â'r Cyng Elaine Evans sy'n ymddiddori mewn llynnoedd trefol, i drafod ble i osod y llynnoedd a beth sy'n addas ar gyfer pob lleoliad.<br>Mae Gill yn gweithio ar ddiweddariad o wefannau tîm cadwraeth Cyngor Sir Ceredigion, gan weithio ar y cyd â Jake, sy'n symud ymlaen â'r wefan LNP gyda dalennau partneriaid.<br>Mae diddordeb yn Eich Darn Tir Gwyllt wedi bod yn araf: bydd mwy i ddigwyddiadau'n mynd ymlaen yn yr wythnosau nesaf.<br>Ar hyn o bryd yn gweithio ar fasgot ar gyfer y bartneriaeth.<br>**EE** Ar beth mae'r cymeriad wedi ei seilio?<br>**GC** Efallai rhywbeth ar sail Barcud<br>**EE** Angen nodi diolch i RA ac AH am eu holl waith a'u hamser gydag LNP a phrosiectau cysylltiedig.<br>**JS** Diddordeb yn y ffordd y gellir defnyddio celf i gyfleu nodweddion hanfodol cadwraeth. Arbenigo mewn celf ar furiau ond hefyd yn gwneud lluniau llai. Wedi gwneud gwaith arolwg yn Costa Rica a gwledydd eraill. Ar hyn o bryd yn darlunio rhywogaethau newydd ar y rhestr goch, diwrnod ar gyfer mis Ionawr.<br>**JR** Edrych i gynnwys amrywiaeth eang o bobl wahanol sy'n ymwneud â chadwraeth i'w hychwanegu at y wefan. Gall pob un gael proffil partner ar y wefan.<br>**JS** Wedi gwneud gwaith darlunio i LNATRA ar gyfer eu cwrs ar doeon gwyrdd. Gwahanol ffyrdd i ddenu pobl at gadwraeth drwy gelf.<br>**JR** Trefnu ffyrdd "Data hardd" i ymgysylltu. Yn gweithio ar hyn o bryd gyda myfyriwr Daearyddiaeth yn gwneud gwahanol waith mapio gan ddefnyddio data maint i fapio gwahanol gysylltiadau.<br>**JR** Mae yna nifer o deithiau cylch penodol gan y tîm PROW a byddant yn taro heibio am sgwrs.<br>**AH** A ydyn ni'n dal i chwilio am ddarluniau ar gyfer arwyddion i'r gwarchodfeydd natur?<br>**GC** Mae'r darluniau i gyd wedi eu didoli ar gyfer yr arwyddion, ac mae'r Llyfrgell Genedlaethol wedi rhoi'r map degwm gwreiddiol. Mae'r arwyddion bron wedi eu gorffen. |
| **Gweithredu**<br>N/A | |

| 6 | **Diweddariadau Aelodau a Thrafodaeth** |
|---|---|
| | **CH** Coed y Bont, Coedwig Genedlaethol gyntaf i Gymru wedi ennill nifer o wobrau. Wedi bod yn brysur yn gosod blychau adar, meinciau picnic a phrynu llif estyn. Gwirfoddolwyr wedi cael cyrsiau cymorth cyntaf. Ar hyn o bryd yn trefnu llwybrau a phontydd wedi eu gwneud o slipars rheilffordd. Dwy o'r llynnoedd yn cael eu clirio i gael gwared â chwyn i'w gwneud yn well i frogaod silio. Mae'r cais am y cytundeb rheoli wedi ei roi i CNC. Mae'r cynllun rheoli wedi ei ddiweddaru.<br>CH Y gwaith ar y wiwer goch a'r bele wedi ei ohirio ar ôl bod yn sâl am ychydig fisoedd ym mis Tachwedd a Rhagfyr**.**<br>**PT** Diolch i'r tîm bioamrywiaeth am ariannu'r arolygon o wyau'r brithribin brown. Ar hyn o bryd yn archwilio o gwmpas Aberteifi a Sir Benfro, a'r niferoedd lawer yn uwch. Dydd Mercher 11 Chwefror yn plannu planhigion rhafnwydd ar Bendinas, gydag ACV, i ddenu gloÿnnod brwmstan. Diolch i Chris. Wedi sefydlu dalen ieir bach yr haf ar Facebook. Hoffai gwrdd â'r swyddog coed newydd pan fydd yn cychwyn.<br>**EE** A oes unrhyw Gynghorwyr a hoffai helpu gyda'r gwaith at Bendinas? |


| | |
|---|---|
| | **CM** Eich darn tir gwyll**t** – sesiynau wythnosol yn y sir, 44 yn gweithio hyd yma, sy'n isel o ran digwyddiad. Mae rhai digwyddiadau wedi canolbwyntio ar grwpiau sy'n gweithio yn hytrach na sesiynau agored. Mae sesiwn yn Ffwrnais yfory. Cysylltu â chynghorau cymuned i rannu'r poster. Os oes gan rywun ddiddordeb neu os gwyddoch am unrhyw grŵp, rhowch y manylion ar carys@westwalesbiodiversity.org.uk<br>**EE** Rhannu'r wybodaeth ar gyfer y digwyddiad yfory.<br>**DL** Dau brif ddiweddariad: **Ariannu** – gobeithio y caiff cylchoedd y dyfodol yn y cynllun grant tirwedd eu cyhoeddi ar ôl yr etholiad. Meddyliwch nawr am unrhyw syniad yn barod ar gyfer rhyddhau'r ariannu. Mae'n edrych yn debyg y bydd adran gyntaf llwybr y goedwig Genedlaethol yn cael ei lansio yn y de ddwyrain sydd nawr bron wedi ei gwblhau. Bydd adrannau ym mhob sir. Os oes gan rywun wybodaeth leol, rhannwch honno, teithiau mawr y goedwig, ac ati. E-bost DL.<br>**FM** Wythnos Natur Cymru 4 i 12 Gorffennaf. Digwyddiadau'n cael eu hyrwyddo drwy'r flwyddyn. Cysylltu â'r cyfryngau cymdeithasol.<br>https://www.biodiversitywales.org.uk/en/events/wales-nature-week/ Adnewyddu'r NRAP Cenedlaethol ar 4 Mawrth, yn fodlon helpu gyda'r ddogfen a'r cyhoeddiad ac yna ychydig yn ddiweddarach.<br>**AW D**iwrnod gwaith gwirfoddol fory i glirio eithin yn cael ei ariannu gan Gyngor Tref Aberystwyth. Asiantaeth Priffyrdd yn plannu coed sydd wedi eu colli ar Rodfa'r Gogledd.<br>AH Yn cymryd rhan yn CGBGC yn cofnodi rhywogaethau ar ddiwrnod ym mis Ionawr, dechrau adfer 2 erw o goedlan, yn edrych ar ffyngau.<br>**RA** Ychydig weithgarwch oherwydd anabledd ond yn darllen cylchlythyron ac yn edrych ar-lein am ymchwil ac ati. Unsain wedi cyhoeddi bod 2026 yn flwyddyn gweithgarwch gwyrdd.<br>**RW** Diweddariad byr yn y sgwrs wrth Carol Fielding.<br>**FM** Prosiect gyda Jane Roche - Catch of the day - i edrych ar bysgota cynaliadwy a'r amgylchedd. Digwyddiad cyntaf yn ystod hanner tymor mis Chwefror. Stondinau ar gael, cysylltwch â Fiona.<br>Catch of the Day – gweler llythyr ynghlwm.<br>**FM** Os ydych yn hunan-gyflogedig, mae cyllid ar gael. Os hoffech wneud rhyw weithgarwch, cysylltwch.<br>**CM** – Ymddiheuriadau am yr oedi cyn ymuno. Mwy o sesiynau coedwig yn Nhaliesin.<br>**GC** Wedi gofyn i Gofnodwr Adar y Sir ymuno â ni ym mis Ebrill. Ddim yn hyderus yn siarad yn gyhoeddus ond yn mynd i holi a all roi cyflwyniad ynghyd.<br>**EE** A fydd Cyfrif Mawr RSPB yn dioddef oherwydd y tywydd gwlyb yn ddiweddar?<br>**CF** Cynllun ffermio cynaliadwy – swydd CNC yn helpu paratoi cynllun rheoli perthnasol i safleoedd ar gyfer y ffarm lle mae rhan o'r daliad ar SoDdGA. Dynodiad SoDdGA newydd ger Tregaron. Yn dal i ddelio â digwyddiadau o ollwng slyri a niwed i GoDdGA. Digon o reolaeth ymarferol ar SoDdGA yn cael ei ariannu gan gynllun Rhwydweithiau Natur LlC.<br>**EE** Beth yw swyddogaeth CNC wrth reoli SoDdGA Comin Silian, er enghraifft.<br>**CF** Lle mae'r SoDdGA ar dir comin mae problemau wrth wneud gwaith, fel nifer o ran-ddeiliaid. Y Tîm Afonydd Byw yn datrys INNS ar ffin afon yng Nghomin Silian, angen cael pawb sydd â diddordeb yn y safle ynghyd i drafod y cynllun rheoli a sut y gellir ei symud ymlaen**.** |

**GWEITHREDU**
N/A


<table>
<tr><th>7</th><th>DIWEDDARIADAU STAFF</th></tr>
<tr><td>7.0</td><td>Jake Rayson-<br><br>1. Stori Wyllt https://storiwyllt.cymru – Yn cyfuno adnabod bywyd gwyllt, creu cynefinoedd ac adrodd storiau<br><br>

</td></tr>
</table>


2. **Tŵr Gwyllt** gosodiadau celf cynefinoedd bywyd gwyllt ar ffurf tŵr caergawell




3. **Fferm Sirol** "menter gymunedol coedwigaeth amaethyddol " – gweithdy arwyr ag-ored, bywoliaeth gynaliadwy, arwain gan ecoleg




4. **Cyfathrebu**
   - Taflenni'r cyfryngau cymdeithasol – effaith weledol
   - Posteri – ar gyfer digwyddiadau partneriaid ad hoc
   - Cylchlythyr – prif stori a mwy o luniau! Cysylltu â'r dull Partneriaid gyda thaflenni, posteri a'r wefan, yn ymgorffori graffeg y Stori Wyllt
5. **Gwefan Partneriaid**



- Proffil




- [Eich Tir Gwyllt Chi]() – ar dudalen pob partner

- [Map Partneriaid]() - (defnyddio [OpenStreetMap]() ac [uMap]()) – amlinelliad a manylion sylfaenol ar gyfer pob safle partner (yn y pen draw!)




- *QRFPP* – Cod QR ar bystion Ffotograffau Mannau Sefydlog, ymgysylltu ag ymwelwyr, llun diweddar o'r safle a gwybodaeth ecolegol a all fod yn ddefnyddiol



- *Prosiectau* hefyd ar dudalen proffil Partneriaid, felly'n gallu gweld pwy sy'n gwneud beth a ble, e.e.
  - [Butterfly Conservation]() [Mannau Gwyllt]()

- RSPB Big Garden Birdwatch...
  - *Perthynas* - potensial i fapio perthynas, felly'n gallu gweld pwy sy'n gysylltiedig â phwy a pha brosiect a ble. A yw'r wybodaeth hon yn ddefnyddiol? Sut gellir ei mapio? E.e. Fenland partnership
    Sam




Prosiectau cynllun grantiau bach

---

- Swift Tower
- Learning Nature Garden
- Accessible biodiversity and nature connection area
- Vertical Garden
- Wildlife Forest Garden
- Community Nature Garden
- Trees, shrubs, bird boxes, bug hotels and seating for residents
- 2 camera traps, a field tablet and a GPS unit
- Wildlife Learning Path
- Orchard and replacement trees
- Church Hall Garden
- Bird boxes and misc. workshop items

- **Tŵr i'r Wennol Ddu**
- **Gardd Natur i Ddysgu**
- **Ardal bioamrywiaeth hygyrch a man cysylltu â natur**
- **Gardd fertigol**
- **Gardd goedwig bywyd gwyllt**
- **Gardd natur gymunedol**
- **Coed, prysgwydd, blychau adar, gwestai i bryfed a mannau eistedd i drigolion**
- **2 drap camera, tabled maes ac uned GPS**

- **Llwybr dysgu am fywyd gwyllt**
- **Perllan a choed i adnewyddu**
- **Gardd Neuadd yr Eglwys**
- **Blychau adar ac amrywiol eitemau gweithdy**

**CH** 9-10 o warchodfeydd a safleoedd bywyd gwyllt.
LNR Pendinas a thraeth Tan-y-bwlch – yn gweithio gyda gwahanol asiantaethau, gan gynnwys y Frigâd Dân. Mae'r Frigâd Dân wedi bod yn gosod rhwystrau tân cyn y Nadolig ac yn cwrdd eto ddechrau Chwefror i drafod. Gwaith torri tyfiant ar y safle ym mis Hydref, gwaith pellach ar y gweill ar gyfer y gwanwyn cynnar i gynnwys torri'r tyfiant yn y zig zag cyn plannu rhafnwydd gyda Paul Taylor. Gât Tan-y-bwlch a'r fynedfa i gaeau'r asynnod. Gwaith i gael ei wneud ar y gatiau.
PNP Yn gweithio gyda'r grŵp cefnogi PNP ac ACV i glirio eithin. Eisiau diolch i'r grŵp cefnogi PNP am eu holl waith caled. Gobeithio wedi trefnu cael y robomower ar y prif lwybrau yn PNP i glirio ddechrau mis Mawrth. Gwaith clirio buddleia wedi ei wneud ger y chwarel.
Gwarchodfa Natur Llwynyreos, yn gweithio gyda Fiona i ddefnyddio arian y Goedwig Genedlaethol i drwsio'r cyfarpar chwarae. Gosod gatiau a phystion a gobeithio eu gosod ar yr ochr gyferbyn. Gobeithio glanhau'r nant rhwng Llwynyreos i atal llifogydd. Wedi trafod gyda Victoria yn Hyb Penparcau i drafod sut i ddosbarthu gwybodaeth am adael sbwriel yn anghyfreithlon i geisio rheoli faint o wastraff gardd sy'n cael ei adael yn safle Llwynyreos.

| Capital | Flexi Capital | TOTAL CAP | LPfN Rev | Bio Rev | TOTAL ALLOCATION £ | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 154,749.96 | 33,160.71 | 187,910.67 | 66,000.00 | 48,000.00 | 301,910.67 | 25-26 |
| 154,749.96 | 33,160.71 | 187,910.67 | 66,000.00 | 48,000.00 | 301,910.67 | 26-27 |
| 309,499.92 | 66,321.42 | 375,821.34 | 132,000.00 | 96,000.00 | | |

**Gweithredu**
N/A

| 8 | Chris Adroddiad Cynhadledd Romania C ac A |
|---|---|
| | CM- Beth yw'r mentrau a drafodwyd yn y gynhadledd roeddech yn eu hystyried yn arloesol?<br>CH- Fforio yn y goedwig i grynhoi adnoddau gan gynnwys mêl ac aeron gan drigolion lleol, a'u troi wedyn yn jam a mêl gan fusnesau lleol a'u gwerthu i amrywiol sefydliadau a'u dosbarthu i hybiau bwyd. Gwneud cynnyrch o goedlannau. |

| | |
|---|---|
| | CM – Edrych ar wahanol ffyrdd y gallwch ddenu pobl i edrych ar gynefinoedd mewn gwahanol ffyrdd. Defnyddio bwydydd wedi eu cynhyrchu o goedlannau i gynnwys pobl.<br>CH – Mae'n gyffredin gweld pobl yn fforio yng nghoedwigoedd dwyrain Ewrop i'w gwerthu wrth ymyl y ffordd.<br>AH – Cynlluniau Coedwigoedd Cenedlaethol yn canolbwyntio ar bren yn unig. Codais y mater y gallai coedwigoedd gael eu defnyddio ar gyfer bwyd. Pryder y gallai gormod o fforio fod yn broblem.<br>DL – Coedwigoedd CNC yn bennaf yn canolbwyntio ar goedlannau masnachol. Mae rhai safleoedd cynhyrchu gwych yng ngardd Coedwig Aberteifi a safleoedd cynhyrchu eraill. Hoffem i bob math o goedlannau sydd ar gael i fod yn rhan o'r goedwig genedlaethol. Gall mannau perllannau os ydynt yn rhan o gyd-destun ehangach gael eu cynnwys. Nifer o wahanol safleoedd sy'n safleoedd masnachol. Lle mae twrbinau gwynt yn cael eu gosod, sicrhau bod y pryn tir i wneud iawn yn cynnwys plannu coed brodorol. Mae prif gnydau sbriws Sitka yn dioddef gan phytophthora ramorum..<br>RA – Rhwydwaith coedwigwyr Ewrop, yn falch clywed am nifer o wahanol wledydd a'r gwaith sy'n cael ei wneud, sut mae'n cael ei reoli o ran ieithoedd, a oedd unrhyw rwystrau cyfathrebu. Ar y rhestr o bobl yn bresennol roedd Awstralia, nad yw yn Ewrop.<br>CH- Mae Awstralia I yn rhan o'r corff llinell werdd o sefydliadau sy'n cefnogi coedwigwyr sy'n gweithio mewn swyddi bywyd gwyllt. Mae Cadeirydd y gymdeithas yn dod i o Awstralia, felly mae'n mynd i'r cyfarfod.<br>Mwyafrif y bobl yn y gynhadledd yn siarad Saesneg, y brif gynhadledd mewn Romaneg a Saesneg. Nifer o gynrychiolwyr yn deall y naill iaith neu'r llall.<br>RA – A oedd unrhyw rwystrau diwylliannol, gweithio mewn cyd-destun dwyieithog, rhai nodweddion diwylliannol ddim yn croesi ffiniau iaith. Mae deall yr iaith yn golygu gallu deall y wybodaeth ddiwylliannol, a ellir trosglwyddo cysyniadau? Mae'n bwysig diogelu gwybodaeth ddiwylliannol benodol sydd wedi ei hymgorffori yn yr iaith.<br>CH – Dim problemau amlwg wrth rwydweithio, perthynas agos rhwng ieithoedd dwyrain Ewrop a'r diwylliant Celtaidd.<br>FM- Fforio a ffrwythau, mae yna brosiect lle byddai tirfeddiannwr yn hoffi plannu coed ffrwythau yn ei gloddiau. Mae prosiect Llais y Goedwig hefyd yn edrych ar goed cymunedol i ariannu eu prosiectau, e.e. syrop coed bedw.<br>CH- Y prosiect nwyddau o'r coed.<br>AH- Efallai y byddai gan Ganolfan Bwyd Horeb ddiddordeb mewn ymuno â'r math hwn o brosiect.<br>DL- Llwybr gwledydd y Balkan, wedi nodi dros y 4-5 mlynedd diwethaf fod pentrefi wedi newid o ffermio defaid i dwristiaeth. Sut mae rheoli'r newidiadau cyflym i gymunedau? Bydd y ffordd rydym yn deall y trawsnewid yn helpu gyda phrosiect y Goedwig Genedlaethol. Pan fydd y broses yn estyn y tir yn fannau sy'n canolbwyntio ar hamdden, a oes unrhyw oblygiadau yn y tymor hir gan fod trawsnewid i dwristiaeth yn canolbwyntio ar ddiwydiannau'n seiliedig ar dir.<br>CH – Llawer o drawsnewid yn symud i dwristiaeth werdd o ffermio traddodiadol. Ceisio cyflwyno rhywogaethau gwyllt mewn ardaloedd, sy'n gallu achosi problemau. Mae'n bwysig i dwristiaeth werdd.<br>JR – Cysylltiadau â llawer o waith sy'n ymgorffori cymunedau a chynhyrchu bwyd. Gwneud cysylltiad economaidd â'r amgylchedd a sut mae'n clymu gyda'r gymuned.<br>CM – Diwylliannau tecstilau. Mae gennyf rai cysylltiadau yng Ngheredigion sy'n defnyddio dulliau traddodiadol wrth liwio tecstilau a thechnegau cynaliadwy eraill. |

| | David Llywelyn RSPB |
|---|---|
| | **GC** - Yn gweithio gydag Age Concern i greu llyfryn a gaiff ei rannu ysbytai.<br>**DLl** – Caerdydd, Wrecsam, Casnewydd, Caerdydd yn datblygu llyfryn bach ar bresgripsiynau natur i annog pobl i fynd allan i fyd natur er mwyn iechyd a llesiant.<br>[RSPB Nature Prescriptions]<br>Gwaith Miles Richardson ym Mhrifysgol Derby [Finding Nature \| Nature Connectedness Research Blog by Prof. Miles Richardson]<br><br><br>Gweithgareddau ar gyfer pob mis wedi eu gosod allan yn y llyfryn. Cynnwys codau QR am fwy o wybodaeth am natur. Gwybodaeth sut i helpu natur. Gwybodaeth am leoedd i ymweld â nhw a sut i  fynd yno. Hefyd yn cynnwys gwybodaeth i gefnogi llesiant lleol. Gellir  lawrlwytho taflenni o'r llyfryn.<br>Cynnig gweithio gyda ni yng Ngheredigion, gellid gwneud llyfryn gogledd a de, gweithio gydag RSPB.<br>C ac A:<br>**EE-** Mae bod allan gyda natur yn llesol.<br>**JR** - Gwneud llawer o waith ar y wefan, lle delfrydol i hyrwyddo'r llyfryn.<br>**DLl** – Ceisio annog pobl i gael llyfryn ffisegol, ond yn gweithio hefyd i'w wneud yn llyfryn rhithwir hefyd, yn fodlon gweithio gyda CSC ar  weithdy cyd-ddylunio.<br>**CH -** Dylid cynnwys gwarchodfeydd natur yn y llyfryn.<br>**DLl –** Gweithio gyda staff Ceredigion i ddewis lleoliadau a lluniau ar gyfer y safleoedd.<br>**RA** – Cysylltiadau â phartneriaethau iechyd a llesiant, gweithio gyda'r henoed a phobl anabl mewn cartrefi gofal. Gobeithio cysylltu â gofalwyr a phobl sy'n gaeth i'r tŷ. Byddai rhywbeth mewn print yn gyfarwydd ac yn cael ei adnabod gan bobl hŷn neu anabl. Gallai costau argraffu gael cymorth drwy gyllid. Gofalwyr yn brysur iawn, mae'n anodd cael y gefnogaeth i drigolion.<br>**DLl –** O ran argraffu, gallai cyllid digonol dalu am tua 1000 o lyfrynnau ac ar gyfer cyfarfodydd. |

| | |
|---|---|
| | Fersiwn hawdd ei darllen wedi ei datblygu a fersiwn debyg dan do yn cael ei datblygu. Gwneud yn siŵr ei fod yn gweithio gyda gofalwyr a phobl mewn cartrefi gofal. Hefyd gweithio i gefnogi pobl sydd â dementia. Ei adael ar-lein ar badiau bach fel y gall pobl nad ydynt mewn cyfarfodydd gyfrannu. Y dull yw partneriaeth a phawb yn cyfrannu i'r un graddau.<br>**GC** – Cyllid ar gyfer argraffiad ychwanegol, gellir argraffu poster sylfaenol i ddangos bod y llyfryn ar gael.<br>**DLl** – Cynhyrchu ffilm hefyd. Anodd mynd i mewn i'r sector iechyd, gweithio fel rhan o dîm, prosiect cyd-gynhyrchu sy'n cysylltu sectorau, angen dymchwel rhwystrau rhwng sectorau. Casnewydd / Trefdraeth yn gweithio gyda chysylltwyr cymunedol i weithio gyda gwahanol sectorau.<br>**DLl –** Cam nesaf, cwrdd â thimau i symud y prosiect hwn ymlaen.<br>**GC** – Os yw Mel yn fodlon dechrau gyda'r lleoliadau cymunedol. A oes amserlen y gallwn weithio arni?<br>**DL l-** Trefnu cyfarfod i drefnu amser sy'n gweithio i bawb. |

Dyddiadau cyfarfodydd y dyfodol
21 Ebrill Ceinewydd
21 Gorffennaf i'w gadarnhau
1 Hydref i'w gadarnhau
19 Ion 27 i'w gadarnhau